*Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth ond mae'n ymdrin â'r rhan fwyaf o ddatblygiadau sydd angen mewnbwn gan ymgynghorydd ecolegol.*

| **Cynnig Datblygu** | **Os ydych wedi gosod unrhyw dic yn y golofn hon mae angen arolwg ecolegol arnoch (siaradwch ag ymgynghorydd ecolegol / ecolegydd ystlumod).** |
|---|---|
| Yn cynnwys gwaith i do unrhyw adeilad/tŷ gan gynnwys bondo, bwrdd bondo, crib, teils crib, teils, teils crog, llechi, topiau wal. Gwaith i waliau gydag agennau / agoriadau. Gwaith o fewn gofod y llofft - yn cynnwys gwaith o fewn yr adeilad / tŷ sy'n effeithio ar y nenfwd o dan y gofod llofft / to. | |
| Dymchwel adeiladau gan gynnwys adeiladau amaethyddol gan gynnwys ffermdai, ysguboriau, adeiladau allanol, siediau gwair ac adeiladau da byw yn enwedig y rhai sydd wedi'u hadeiladu o frics neu gerrig traddodiadol. | |
| Yn cynnwys gwaith i chwarel neu adeiladwaith adeiledig gan gynnwys pontydd, traphontydd, traphontydd dŵr, twneli, mwyngloddiau, odynau, tai iâ, ceuffyrdd, amddiffynfeydd milwrol, llochesi cyrch awyr, seleri a dwythellau a strwythurau tanddaearol tebyg. | |
| Bydd yn goleuo / peri i olau gael ei daflu ar adeilad, coeden aeddfed, coetir, gwrych cae, tir pori, cwrs dŵr, corff dŵr, coed neu glwydfan ystlumod hysbys. | |
| Cynigion sy’n effeithio ar goetir, gwrychoedd caeau, cloddiau, waliau cerrig ac ati<br>a/neu linellau o goed a nodweddion cysylltedd eraill megis prysgwydd. | |
| Gwaith ar goed sy’n cynnwys cwympo, gwaredu a/neu docio. | |
| Cynigion ar gyfer cynlluniau ynni dŵr tyrbinau gwynt (sengl a lluosog) neu ffermydd solar. | |
| Effeithiau ar gwrs dŵr (afonydd, nentydd, camlesi, ffosydd), ardal rynglanwol neu ddŵr agored llonydd (e.e., pyllau, corsleoedd) ac eithrio pyllau pysgod gardd addurnol. | |
| Cynigion a leolir o fewn neu’n union gerllaw:<br>• Chwareli neu byllau graean.<br>• Wynebau clogwyni naturiol a chreigiau brig â holltau neu ogofâu a swaledi. | |
| Cynigion sy’n effeithio ar dir ‘diffaith’ (safleoedd tir llwyd), rhandiroedd a thir rheilffordd. | |
| Cynigion sy'n cynnwys cael gwared ar laswelltir bras, twmpathog (garw), glaswelltir gwlyb, glaswelltir corsiog, glaswelltir llawn rhywogaethau, glaswelltir llawn blodau neu weundir (grug/eithin yn bresennol). | |
| Datblygiad arfaethedig sy’n effeithio ar unrhyw adeiladau, strwythurau, nodwedd neu leoliadau lle gwyddys eisoes fod rhywogaethau neu gynefinoedd sy'n cael eu gwarchod/blaenoriaethu yn bresennol.* | |
| Mae'r safle'n cynnal rhywogaethau goresgynnol. Rhestr lawn yn Atodlen 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. | |
| Gall effeithio’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol (trwy gwrs dŵr neu lwybr llygredd aer) ar safle bywyd gwyllt dynodedig (e.e. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Safle Bywyd Gwyllt Sirol, Gwarchodfa Natur Leol, Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur).* | |

** Cadarnhawyd eu bod yn bresennol naill ai drwy chwiliad data drwy’r Ganolfan Cofnodion Lleol neu fel yr hysbyswyd i’r datblygwr gan yr Awdurdod Lleol, a/neu gan Gyfoeth Naturiol Cymru neu sefydliad cadwraeth natur arall*